Museums Association

# Maniffesto ar gyfer Amgueddfeydd yng Nghymru

Mae Cymdeithas yr Amgueddfeydd (MA) yn galw ar i bawb gael yr hawl i ymgysylltu ag amgueddfeydd a chyfranogi ynddynt ac i gael mynediad at wasanaeth amgueddfeydd o ansawdd da yn agos at eu cartrefi a'u cymunedau. Mae'n galw hefyd am fwy o fuddsoddiad cyhoeddus mewn amgueddfeydd a hynny dros amser.

Mae amgueddfeydd yng Nghymru wrth galon eu cymunedau. Cynigiant ymdeimlad o le – Cynefin – ac o Berthyn – ac maent yn gweithio gyda'u cymunedau ar bynciau hanfodol fel cynaliadwyedd amgylcheddol a chyfiawnder cymdeithasol. Mae amgueddfeydd yn denu twristiaid hefyd a mae iddynt fanteision economaidd ar lefel genedlaethol a lleol.

Mae amgueddfeydd wedi bod yn gweithio i gefnogi eu cymunedau ac ymgysylltu â nhw ac maent wedi helpu i gyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, yn fwyaf nodedig o ran Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol.

Yn ogystal, mae amgueddfeydd yng Nghymru'n chwarae rhan hanfodol yn y meysydd allweddol isod:

- hybu twristiaeth a'r economi ymwelwyr
- cefnogi dysgu ac addysg i bawb
- gwella iechyd a llesiant, a chydlyniant cymunedol
- codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o gynaliadwyedd amgylcheddol ac annog gweithredu ar hynny
- cefnogi pobl i ddefnyddio'r iaith Gymraeg mewn bywyd bob-dydd.

Mewn cyfnod o bolareiddio ac ymrannu cynyddol, gall amgueddfeydd ddwyn pobl ynghyd a'n helpu i wneud synnwyr o'r byd o'n cwmpas. Gallant gynnig cyfleoedd i ddysgu, ymgysylltu a llunio dyfodol i ni gyda'n gilydd.

Dyma ychydig bach o enghreifftiau o waith arloesol amgueddfeydd:

Mae Canolfan Dylan Thomas, Abertawe yn cydweithio â Your Voice Advocacy, grŵp ar gyfer pobl ag anableddau dysgu sydd hefyd yn cael ei arwain ganddynt. Mae'r ddau sefydliad wedi cyd-gynllunio cynnwys cwrs ac adnoddau dysgu Hawdd eu

Deall er mwyn creu cwrs hygyrch ac achrededig cyntaf Cymru a gyd-gynlluniwyd i'w ddefnyddio mewn cyd-destunau diwylliannol.

Mae Amgueddfeydd Monlife wedi blaenoriaethu gwrth-hiliaeth a chyd-gynhyrchu cymunedol ar bob un o'u tri safle, yn cynnwys datblygu oriel newydd ar gyfer straeon mudwyr yng Nghas-gwent a gofod newydd lle caiff cymunedau lleol guradu eu harddangosfeydd eu hunain yn y Fenni.

Roedd Amgueddfa Cymru yng ngharfan gyntaf Rhaglen Amgueddfeydd Gwrth-hiliol yr MA sy'n tywys amgueddfeydd ar daith i daclo gwahaniaethu systemig ac i ddod yn sefydliadau gwrth-hiliol.

Mae Straeon Abertawe yn Oriel Gelf Glynn Vivian wedi denu pobl leol i'r oriel i ddewis a chreu darnau o gelf sy'n adrodd straeon sy'n cyfleu amrywiaeth y gymuned.

**Fodd bynnag, mae amgueddfeydd yng Nghymru'n wynebu heriau sylweddol:**

**Cyllid:** Mae buddsoddiadau awdurdodau lleol mewn amgueddfeydd yn dal i ostwng a gan fod pwysau ar yr awdurdodau i ddarparu gwasanaethau statudol, gall amgueddfeydd wynebu rhagor o doriadau. Gallai hyn arwain at gau amgueddfeydd fel na fyddant bellach ar gael i bobl Cymru. Yn ogystal, oherwydd gostyngiadau mewn cyllid refeniw, mae'n anodd i weithlu sydd eisoes ar gyflogau isel ymdopi yn yr argyfwng costau byw.

**Adeiladau:** Croesawir y buddsoddiad cyfalaf a wnaed mewn rhai amgueddfeydd yn ddiweddar, ond mae angen buddsoddiad ar lawer o hyd er mwyn adnewyddu ac adfywio eu harlwy ar gyfer y cyhoedd.

**Casgliadau:** Gall amgueddfeydd ddefnyddio'u casgliadau i helpu ymwelwyr i archwilio'r gorffennol, deall y presennol a chynllunio ar gyfer y dyfodol, ond mae colli arbenigedd a diffyg buddsoddiad mewn gofalu am gasgliadau yn peryglu'r gwaith hwn.

**Mynediad i bawb:** Mae prinder trafnidiaeth gyhoeddus i gysylltu cymunedau ledled Cymru yn broblem sy'n atal rhai pobl rhag ymgysylltu ag amgueddfeydd a gall eu hallgáu a gwneud iddynt deimlo'n ynysig.

**Yr hyn a ofynnwn i Lywodraeth newydd Cymru**

**Cyllid**:

- **buddsoddiad cyhoeddus strategol** mewn amgueddfeydd cenedlaethol a lleol fel y gallant ofalu am gasgliadau ac adeiladau, a chefnogi rhaglenni dysgu, ymgysylltu cymunedol, ac iechyd a llesiant. Dylid cynyddu'r cyllid ar gyfer diwylliant i lefel fesul pen o'r boblogaeth sy'n cymharu â chyfraniad gwledydd eraill tebyg yn Ewrop

- **cyllid aml-flwyddyn** i'w ddosbarthu i'r sector amgueddfeydd fel y gall amgueddfeydd gynllunio ymlaen llaw

- **cyflog a chydnabyddiaeth teg:** cyllid i ganiatáu i amgueddfeydd weithredu'r cyflog byw ac argymhellion eraill yn nogfen yr MA, Ymchwil ac Argymhellion ym maes Cyflogau

- **cyfrifoldeb amgylcheddol:** cyllid pwrpasol i amgueddfeydd er mwyn sicrhau bod eu hadeiladau a'u casgliadau'n gynaliadwy a'u bod yn gallu dal ati i gefnogi cymunedau i weithredu ar gyfiawnder hinsawdd.

**Adeiladau:**

- sicrhau bod buddsoddiad cyfalaf strategol hirdymor ar gael i bob amgueddfa.

**Casgliadau:**

- mae casgliadau cenedlaethol a lleol yn hollbwysig ar gyfer adrodd stori ein cenedl: buddsoddi mewn arbenigedd a gofal am gasgliadau

**Mynediad**:

- **mynediad am ddim:** parhau â'r ymrwymiad presennol i ganiatáu mynediad am ddim i amgueddfeydd cenedlaethol a chefnogi awdurdodau lleol i wneud yr un ymrwymiad

- **ymweliadau gan ysgolion:** cefnogaeth i ddisgyblion ysgolion cynradd ymweld ag amgueddfa o leiaf unwaith y flwyddyn trwy ddarparu costau trafnidiaeth gyhoeddus a chostau rhaglennu er mwyn goresgyn rhwystrau daearyddol a rhwystrau trafnidiaeth

- **amrywiaeth, tegwch a chynhwysiant:** parhau i ddarparu cyllid i amgueddfeydd tuag at weithredu Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-Hiliol

- **digidol:** cyllid pwrpasol i helpu amgueddfeydd i gynyddu eu gallu digidol a'u hymgysylltiad digidol er mwyn dal i fod yn hygyrch, yn berthnasol ac yn arloesol.